# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

**DYDD GWENER, 11EG MEHEFIN, 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies a C.A. Campbell

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe – Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
A. Evans – Rheolwr Gweithrediadau, Cludiant Teithwyr
L. McFarlane – Swyddog Polisi a Datblygu Teithio Dysgwy
M. Evans Thomas – Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon – Cyfieithydd ar y Pryd

**Rhith-Gyfarfod : 2.45 yp - 2.55 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD M.L. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Croesawodd y Cadeirydd swyddogion o'r Gwasanaethau Cyfreithiol, yr Amgylchedd ac Addysg a Gwasanaethau Plant i'r cyfarfod. Bu'r Pwyllgor yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod cludiant am ddim i M.L. i'r ysgol gan nad yr ysgol honno oedd yr un agosaf nac ychwaith ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod yr apêl a gyflwynwyd gan M.L am gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei chadarnhau.**

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**